

Hyrwyddo Ynni Adnewyddadwy ar y Môr yn y Môr Celtaidd

Wave Hub

Parth Arddangos Sir Benfro

ardal 90sq km
dyfnder dŵr 50m

Ilinell trawsyrru 400kV

Araeau lluosog yn
cynhyrchu hyd at 30MW yr un

Parth Menter Dyfrffordd yr Hafan

Wave Hub

ardal 8sq km

Gosodiad llawn, grid cysylltiedig
ac wedi'i gydsynio

Araeau lluosog yn cynhyrchu
hyd at 48MW

Parth Menter Hwb Morol Cernyw

Doc Penfro

Abertawe

Caerdydd

Barnstaple

Exeter

Padstow

Plymouth
Labordy ARFORDIROL

Hayle

■ FaB Test
*Safe Profi
Bae Falmouth*

www.wavehub.co.uk
enquiries@wavehub.co.uk


Wave Hub, Cernyw

Wave Hub yw'r safle mwyaf o ran maint a'r safle mwyaf technolegol datblygedig yn y byd ar gyfer profi a datblygu technoleg ynni adnewyddadwy ar y môr.

Wedi'i leoli 16km ar y môr o Hayle ar arfordir gogleddol Cernyw, mae Wave Hub yn cynnig:

- Safle cydsynio llawn ar gyfer profi araeau ddyfeisiau ynni tonnau
- Seilwaith grid adeiledig ar y diben wedi'i osod yn barod gyda gallu allforio 48MW
- Dyfnder dŵr yn amrywio o 51m i 57m
- Monitro hinsawdd y tonnau ac ystod lawn o ddata llinell sylfaen
- Monitro a mesur ffeibr optig pell llawn
- Cefnogaeth gan Hwb Morol Cernyw (www.marinehubcornwall.co.uk)

Ariannwyd Wave Hub gan y Rhaglen ERDF Cernyw a'r Adran Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Busnes ac Ynni. Fe'i rheolir gan Wave Hub Cyfyngedig sydd â thîm gweithrediadau penodol i gefnogi cynlluniau lleoli datblygwyr. Mae cwsmeriaid presennol yn cynnwys Carnegie Clean Energy, GWave a Seatricity.



Parth Arddangos Sir Benfro, Cymru

Mae'r Parth Arddangos Sir Benfro yn safle ynni'r tonnau newydd a leolir oddi ar arfordir De Sir Benfro. Wave Hub Cyfyngedig yw'r lesddeiliad gwely'r môr.

Mae'r parth yn cynnwys ardal gwely'r môr 90 km sgwâr gyda dyfnder dŵr o tua 50 metr ac adnodd ton o 19 kW / m. Fe'i lleolir rhwng 13-21 kms ar y môr ac mae ganddo'r potensial i gefnogi arddangos araeau tonnau sy'n gallu cynhyrchu hyd at 30MW ar gyfer pob prosiect.

Mae Wave Hub Cyfyngedig wedi sicrhau cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys y Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, i gynnal y gwaith canlynol yn ystod 2017.

- Cael dealltwriaeth lawn o'r gofynion diwydiant ar gyfer y parth arddangos.
- Cwblhau astudiaeth dichonoldeb technegol a nodi model darparu priodol.
- Paratoi achos busnes cryf ar gyfer sicrhau cyllid i alluogi i'r parth gael ei ddatblygu
- Ymgysylltu'n weithredo â rhanddeiliaid allweddol
- Gallai'r Parth Arddangos Sir Benfro gael ei adeiladu erbyn 2020, gyda gosod y dyfeisiau cyntaf yn 2021.

